BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED

DYDD MERCHER, 24 GORFFENNAF 2024

PRESENNOL (Yn y Siambr) J. Jones (Cadeirydd)

Aelodau'r Bwrdd (Yn y Siambr):

M. Evans – Cynrychiolydd Gweithwyr sy'n Aelodau;
Y Cynghorydd A. Lenny – Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau;
M. Rogers - Cynrychiolydd Pensiynwyr sy'n Aelodau
Y Cynghorydd W. Thomas - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau

Aelodau'r Bwrdd (Yn rhithwir):
T. Bowler – Cynrychiolydd o'r Undeb

Yn bresennol fel sylwedydd (Yn Rhithwir):
Y Cynghorydd E. Williams –Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
K. Gerard, Rheolwr Pensiwn
J. Williams, Cyfrifydd Cynorthwyol
M. Owens, Cyfrifydd Cynorthwywr
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
A. Brown, Ymgynghorydd Annibynnol
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.32 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Mr. R. Edwards – Cynrychiolydd Gweithwyr sy'n Aelodau.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

3. COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN A GYNHALIWYD AR 14 MAI 2024

CYTUNWYD bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn a gynhaliwyd ar 14 Mai 2024 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

4. CYFARFOD PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED 19 MEHEFIN 2024

Bu'r Bwrdd yn ystyried yr adroddiadau a gyflwynwyd i Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed i'w hystyried yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2024, fel a ganlyn:-

4.1. CYNLLUN ARCHWILIO 2024

Bu'r Bwrdd yn ystyried Cynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn nodi cyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru fel archwilydd allanol y Gronfa Bensiwn. Roedd y cynllun yn nodi'r gwaith sydd i'w wneud gan Archwilio Cymru i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd a meysydd ffocws allweddol eraill yn ystod 2024. Roedd hefyd yn nodi'r ffi archwilio amcangyfrifedig, manylion y tîm archwilio a'r dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni'r gweithgareddau a'r allbynnau arfaethedig.

4.2. SEFYLLFA GYLLIDEBOL DERFYNOL 2023-24

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn nodi sefyllfa derfynol cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2023/24.

Cyfeiriwyd at incwm a oedd yn fwy na'r gyllideb lle holwyd a fyddai ystyriaeth yn cael ei roi i gyflwyno ad-daliadau i'r Awdurdodau sy'n cyfrannu. Eglurodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn fod y gwerthusiad actiwaraidd teirblwydd nesaf i osod cyfraddau cyflogwyr i'w gynnal ym mis Mawrth 2025.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod gorwariant o ran Partneriaeth Pensiwn Cymru o'i gymharu â'r gyllideb. Yn bennaf, roedd hyn oherwydd dyraniad ychwanegol ym Mhartneriaeth Pensiwn Cymru oherwydd buddsoddiadau mewn Credyd Byd-eang ac Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy yn ystod y flwyddyn.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

4.3. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 31 MAWRTH 2024

Bu'r Bwrdd yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Mawrth, 2024.

Eglurodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn, mewn ymateb i ymholiad, fod y lefel uchel o ddyledwyr a chredydwyr a nodwyd yn yr adroddiad yn rhai tymor byr a gellid priodoli hyn i'r costau a dalwyd neu incwm a dderbyniwyd ym mis Ebrill 2024 a oedd yn ymwneud â chyfnod ariannol 2023-24; yn unol â hynny, cafodd y rhain eu cronni i'r flwyddyn flaenorol.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

4.4. ADRODDIAD GWEINYDDU PENSIYNAU

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau ac roedd yn cynnwys materion rheoleiddiol, y gofrestr torri amodau, i-Connect, cysoniad GMP a llif gwaith.

Wrth roi diweddariad i'r Bwrdd o ran y materion rheoleiddio, cadarnhaodd y Rheolwr Pensiynau fod canllawiau gan Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi'u cyhoeddi ar 16 Mehefin 2024 i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed mewn perthynas â threthiant a llog fel y cyfeirir atynt yn adran 1b yr adroddiad.

CYTUNWYD bod yr Adroddiad Gweinyddu Pensiynau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.

4.5. ADRODDIAD TORRI AMODAU

Cafodd y Bwrdd yr Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed a baratowyd yn unol ag Adran 70 Deddf Pensiwn 2004, Côd Ymarfer rhif 14 a Pholisi Torri Amodau Cronfa Bensiwn Dyfed.

Roedd y rhestr o achosion o dorri rheolau a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn manylu ar yr achosion lle nad oedd cyfraniadau gweithwyr/cyflogwyr wedi dod i law mewn pryd.

CYTUNWYD bod yr Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.

4.6. COFRESTR RISG

Cafodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg a oedd yn nodi'r holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed. Roedd yr adroddiad yn cynnwys asesiad o'r effaith bosibl, tebygolrwydd a graddfa risg ar gyfer pob maes a nodwyd, ynghyd â'r mesurau rheoli a weithredwyd i liniaru'r risgiau a nodwyd.

Roedd y gofrestr i'w hystyried yn canolbwyntio ar yr 8 risg Llywodraethu a Rheoleiddio a chadarnhawyd, yn dilyn adolygiad o'r gofrestr, nad oedd unrhyw newidiadau i risgiau unigol wedi'u nodi ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r diffyg TG byd-eang diweddar, rhoddwyd trosolwg i'r Bwrdd o'r mesurau sydd ar waith i liniaru risgiau seiberddiogelwch a diogelu data personol ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed. Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd fod gan yr Awdurdod strwythurau TGCh cadarn a threfniadau wrth gefn ar waith. Mae'r feddalwedd gweinyddu pensiynau yn defnyddio system a gynhelir gyda dwy ganolfan ddata ar wahân ac wedi'i hachredu i ISO27001.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch meysydd Risg Llywodraethu 7 ac 8, eglurwyd bod llawer o ffactorau macro-economaidd y tu hwnt i reolaeth Cronfa Bensiwn

Dyfed ac felly ystyriwyd ei bod yn ddoeth categoreiddio'r rhain fel risg uchel. Caiff risgiau o'r fath eu lliniaru, cyn belled ag y bo modd, drwy ddyraniad asedau amrywiol o fewn Cronfa Bensiwn Dyfed.

CYTUNWYD bod y wybodaeth ddiweddaraf am y gofrestr risg yn cael ei nodi.

4.7. CYNLLUN HYFFORDDI 2024-2025

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch y Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2024-2025 a oedd yn manylu ar amserlen cyfarfodydd y pwyllgor, a digwyddiadau hyfforddi ar gyfer aelodau a swyddogion Cronfa Bensiwn Dyfed.

CYTUNWYD bod Cynllun Hyfforddi Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2024/25 yn cael ei nodi.

4.8. DADANSODDIAD DWYSEDD CARBON AR 31 MAWRTH 2024

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgarwch a'r cynnydd o ran sefyllfa Ôl Troed Carbon y Gronfa.

Roedd y diweddariad yn dangos y Dwysedd Carbon Cyfartalog Pwysedig ar gyfer portffolio ecwiti'r Gronfa, a oedd wedi gostwng 18% yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 ac a oedd yn cynrychioli gostyngiad o 15% y flwyddyn dros y tair blynedd a hanner ers y llinell sylfaen ym mis Medi 2020.

Mewn ymateb i ymholiad, rhoddodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn wybod i'r Bwrdd am yr ymdrechion parhaus i ddatblygu mandad buddsoddi wedi'i deilwra ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â chynnyrch cynaliadwy.

CYTUNWYD bod yr adroddiad Dadansoddi Dwyster Carbon yn cael ei nodi.

4.9. DIWEDDARIAD BUDDSODDI CYFRIFOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - MAWRTH 2024

Cafodd y Bwrdd adroddiad diweddaru Buddsoddiadau Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru ar 31 Mawrth 2024 yn manylu ar weithgarwch Buddsoddiadau Cyfrifol diweddar ynghyd â gwybodaeth am yr Is-gronfeydd a ganlyn yr oedd Cronfa Bensiwn Dyfed wedi buddsoddi ynddynt:

- Twf Byd-eang
- Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy
- Credyd Byd-eang

Yn ogystal â'r uchod, roedd y diweddariad hefyd yn darparu Crynodeb Stiwardiaeth ynghyd â'r atodiadau perthnasol rhif 1-4 yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed ynghylch datganiad i'r wasg diweddar, rhoddodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn sicrwydd o'r cynnydd cadarnhaol a wnaed gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i leihau amlygiad i garbon a risg yn sgil yr hinsawdd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a phwysleisiwyd bod angen dull pwyllog yn hyn o beth.

Cyfeiriwyd at gynigion y cyfranddalwyr a gefnogir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â Tyson Foods ym meysydd lobïo hinsawdd gorfforaethol, lobïo hinsawdd corfforaethol, cadwyni cyflenwi dim datgoedwigo, pecynnu yn unol ag egwyddorion yr economi gylchol a pholisïau archwilio i atal llafur plant. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Bwrdd bod y cynigion wedi cael cefnogaeth leiafrifol ac nad oeddent wedi'u cymeradwyo, dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn y byddai'n gofyn am ragor o wybodaeth am y mater hwn ac yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd maes o law.

CYTUNWYD bod adroddiad diweddaru Buddsoddiadau Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru fel yr oedd ar 31 Mawrth, 2024 yn cael ei nodi.

4.10. COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y PWYLLGOR PENSIWN 19 MEHEFIN 2024

CYTUNWYD bod cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2024 yn cael eu nodi.

5. MONITRO CYLLIDEB Y BWRDD PENSIWN 1 EBRILL 2024 - 30 MEHEFIN 2024

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad Monitro Cyllideb y Bwrdd Pensiwn fel yr oedd ar 30 Mehefin, 2024. Cyfanswm y gwariant gwirioneddol oedd £6.1k. Rhagwelwyd y byddai'r gwariant ar gyfer y flwyddyn yn cyd-fynd â'r gyllideb.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurwyd bod y ffigur dim yn y golofn gwariant yn ymwneud â phroblem o ran amseru lle na fyddai anfonebau ar gyfer gwariant wedi cael eu prosesu. Mewn achosion o'r fath, adlewyrchwyd y gwariant yn y golofn ymrwymiadau a ragwelwyd.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

6. CYNLLUN GWAITH Y BWRDD PENSIWN 2024

Bu'r Bwrdd yn ystyried Cynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn ar gyfer 2024 a oedd yn amlinellu gwaith y Bwrdd Pensiwn drwy gydol 2024 a'r eitemau i'w cyflwyno ym mhob cyfarfod.

CYTUNWYD bod Cynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn ar gyfer 2024 yn cael ei nodi.

7. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

8. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 31 MAWRTH 2024

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.

Ystyriodd y Bwrdd Adroddiad Perfformiad a Risg yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai fanylion mewn perthynas â pherfformiad y Rheolwr Buddsoddi ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a'r cyfnod treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 31 Mawrth 2024. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cefndir y farchnad fyd-eang a materion i'w hystyried.

CYTUNWYD bod yr adroddiad Perfformiad a Risg gan yr Ymgynghorydd Annibynnol fel yr oedd ar 31 Mawrth, 2024 yn cael ei nodi.

9. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 31 MAWRTH 2024

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad Perfformiad Northern Trust a oedd yn nodi perfformiad Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Mawrth, 2024. Roedd yr adroddiad yn darparu dadansoddiad perfformiad ar lefel cronfa gyfan a chan y Rheolwr Buddsoddi am y cyfnodau hyd at y cychwyn.

CYTUNWYD bod adroddiad Perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024 yn cael ei nodi.

10. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 31 MAWRTH 2024

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y Rheolwr Buddsoddi fel yr oedd ar 31 Mawrth, 2024 ynghylch:

- BlackRock - Adroddiad Chwarterol 31 Mawrth 2024;
- Schroders - Adroddiad Buddsoddi Ch1 2024;
- Partners Group - Adroddiad Chwarterol Ch1 2024;
- Cronfa Tyfu Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Mawrth 2024;
- Cronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Mawrth 2024
- Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Mawrth 2024.

CYTUNWYD bod adroddiadau'r Rheolwr Buddsoddi ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael eu nodi.

11. DIWEDDARIAD SCHRODERS

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.

Derbyniodd y Bwrdd gyflwyniad a baratowyd gan Schroders a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddiadau'r Gronfa. Roedd y cyflwyniad yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth ddiweddaraf am fusnes, Trosolwg ar y Farchnad Eiddo Tiriol, Trosolwg ar y Portffolio, Perfformiad a Strategaeth a gweithgareddau Cynaliadwyedd a Llywodraethu.

CYTUNWYD bod cyflwyniad diweddaru Schroders yn cael ei nodi.

_____ _____

CHAIR **DATE**